# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth

## Cofnodion y cyfarfod

Dyddiad: 24/10/17

Lleoliad: Ystafell Gynadledda A

Yn bresennol:

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth - 24 Hydref 2017**

| Enw | Sefydliad | Cysylltu |
|---|---|---|
| Suzy Davies AC | | Suzy.davies@cynulliad.cymru |
| Craig Lawton - Ysgrifennydd | Suzy Davies AC | Craig.lawton@cynulliad.cymru |
| Adrian Greason-Walker | Cynghrair Twristiaeth Cymru | adriangwalker@gmail.com |
| Ros Pritchard | Cyfarwyddwr Cyffredinol BH & HPA | |
| Huw Pendleton | Cyfarwyddwr Cangen Gorllewin Cymru, Cymdeithas Parciau a Chartrefi Gwyliau Prydain (BH & HPA) a Rheolwr Gyfarwyddwr, Parciau Gwyliau Celtaidd | |
| Adrian Barsby | Cynghrair Twristiaeth Cymru | |
| Paul Loveluck | Cynghrair Twristiaeth Cymru | |
| Alicia Dunne | Cyngor Carafanau Cenedlaethol (NCC) | |
| Adam Price AC | | |
| Tim Brace | FBM Holidays | |
| Colin Evans | Cantref: Antur Fawr y Bannau,<br>Twristiaeth Bannau Brycheiniog | |
| Karl Hopkins - Pennaeth yr Uned NDR Cymru | Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) | |
| Joseph Slater – Arbenigwr Pwnc, Hamdden a Hunanarlwyo | Asiantaeth y Swyddfa Brisio | |

| | | |
|---|---|---|
| Robert Martin - Tîm Strategaeth a Pholisi | Asiantaeth y Swyddfa Brisio | |
| Darren Millar AC | | |
| Russell George AC | | |
| Mark Isherwood AC | | |
| Huw Irranca-Davies AC | | |
| Val Hawkins | Twristiaeth Canolbarth Cymru | |
| Jacqueline Janssen | Cymdeithas Gweithredwyr Hunan Ddarpar Cymru | |
| Jan Meulendijk | Cymdeithas Gweithredwyr Hunan Ddarpar Cymru | |
| Ken Skates AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Llywodraeth Cymru | |
| Rob Holt | Llywodraeth Cymru | |
| Claire Chapel | | |
| Andrew Johnson | Cynghorydd Arbennig i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi | |

**Ymddiheuriadau**

| Enw | Sefydliad | Cysylltu |
|---|---|---|
| Simon Thomas AC | | |
| Llyr Gruffydd AC | | |

1. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawodd SD aelodau'r Grŵp.

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

3. Diweddariad gan Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, ar farchnata, brandio a pholisi twristiaeth a lletygarwch, **ac**
4. I ddilyn, bydd cyfle i aelodau ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet.

Rhoddodd Ken Skates y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau, gan ddweud bod Cymru wedi cael canlyniadau da o ran twristiaeth yn 2017, gyda mwy nag erioed o ymwelwyr yn dod i Gymru, a mwy o incwm i'r sector nag erioed o'r blaen.

Roedd y gwariant yma yn uwch na gwariant cyfartalog y DU ac roedd hyn yn rhannol oherwydd digwyddiadau mawr fel Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr a'r Gystadleuaeth Golff Agored Uwch. Roedd y digwyddiadau hyn hefyd yn allweddol i farchnata Cymru dramor.

Mae themâu ar gyfer blynyddoedd hefyd yn syniad da ac yn cynyddu gwerth twristiaeth a diddordeb cyfunol. Gwelwyd cynnydd o £300 miliwn yn dilyn y Flwyddyn Antur. Roedd 58 y cant o bobl a holwyd yn gallu cofio'r Flwyddyn Antur, sy'n ffigur uchel iawn.

Bydd 2019 yn Flwyddyn Darganfod, a fydd yn manteisio ar y tair blynedd ddiwethaf ac yn gweithredu fel sbardun ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

O ystyried digwyddiadau mawr eraill, fel Ras Forol Volvo, ac mae llawer o'r digwyddiadau hyn yn creu newid o ran enw da ardaloedd, a nod Llywodraeth Cymru yw creu twf yn y sector twristiaeth yng Nghymru o 10 y cant erbyn diwedd y degawd. Maent ar y trywydd iawn i gyflawni hyn.

Fodd bynnag, mae'r heriau o'n blaen yn cynnwys ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a Threthi. Mae yna gyfleoedd hefyd, e.e. gyda'r newid mewn cyfraddau cyfnewid.

Hoffai Llywodraeth Cymru pe bai Fforymau Rhanbarthol yn gryfach, oherwydd mae'n credu bod y rhain yn bwysig.

Gofynnodd SD sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu sectorau i wneud y gorau o'u brandio.

Dywedodd KS fod gan y Rheolwr Cyrchfan rôl.

Ychwanegodd nad yw Llywodraeth Cymru am weld dim effaith negyddol o ran ei brand.

Fodd bynnag, mae busnesau yn gofyn yn aml sut y gallant gael mynediad at y brandio, a defnyddio logos Croeso Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar y mater hwn.

Gofynnwyd cwestiynau gan aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol ynglŷn â Threth Twristiaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru.

Ychwanegodd yr Aelodau at sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet, gan ddweud bod busnesau twristiaeth yn ysgogwyr ac yn creu incwm o ran yr economi, ac mai lefel gyffredinol y dreth yn y DU ac yng Nghymru yw asgwrn y gynnen.

Nodwyd Iwerddon fel enghraifft, gan fod y TAW ar dwristiaeth wedi ei dorri yno.

Ychwanegodd BHA fod busnesau twristiaeth yn gwario llawer o arian i gadw busnesau ar lefelau uchel.

Mae busnesau am gyflogi cynifer â phosibl o bobl, ac yn gwneud yn fawr o'r budd i'r economi leol yn hyn o beth.

Ychwanegodd y grŵp fod y diwydiant twristiaeth yn cytuno â llawer o'r trethi arfaethedig eraill ar gyfer Cymru.

Ychwanegodd BH & HPA bod ei haelodau'n pryderu am y dreth arfaethedig a'i goblygiadau. O ganlyniad i'r ansicrwydd hwn, nid yw llawer o fusnesau'n buddsoddi o gwbl nes y bydd terfyn ar yr ansicrwydd hwn.

Ymatebodd Ken Skates AC gan ddweud fod nifer o ardollau llwyddiannus, fel yng Nghaliffornia ac yn Ewrop.

Ychwanegodd nad yw am weld baich treth gormodol gan fod twristiaeth yn sylfaenol i'r economi, yn enwedig yr economi wledig, a bod enghreifftiau da o drethi twristiaeth, yn enwedig lle mae lefelau is o dreth.

Roedd KS yn frwd i bwysleisio mai cynnig yw'r Dreth ar Dwristiaeth ar hyn o bryd.

Ychwanegodd, bod disgwyl i Loegr ddilyn pa benderfyniad bynnag y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud, naill ai i fynd ymlaen â'r cynnig neu i roi'r gorau iddo.

Ychwanegodd, pe bai TAW yn is, gallai fod yn fwy o reswm dros gyfiawnhau treth dwristiaeth, gan fod TAW ar hyn o bryd yn mynd i goffrau Llywodraeth y DU tra byddai Treth Dwristiaeth yn mynd i goffrau Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd SD am amserlen o ran y cynigion.

Cadarnhaodd KS ei fod yn gobeithio am y wybodaeth ddiweddaraf a phenderfyniad yn y flwyddyn newydd, ac y byddai ef yn croesawu penderfyniad buan yn hytrach na phenderfyniad hwyr.

Ychwanegodd BH & HPA bod yr ansicrwydd ar hyn o bryd yn cael effaith niweidiol, gan nad yw busnesau yn buddsoddi oherwydd eu bod yn aros i glywed am y penderfyniad.

Ychwanegodd DM ei fod yn destun pryder bod y cynnig hwn yn cael ei ystyried o ddifrif a'i fod wedi cyrraedd y pedwar dewis olaf gan Lywodraeth Cymru, a gofynnodd a fyddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad clir i'w ddiystyru fel cynnig.

Cytunodd KS y dylai unrhyw benderfyniad fod yn un clir, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wthio am ostyngiad o ran TAW ar gyfer busnesau twristiaeth.

Ychwanegodd HID fod Lloegr eisoes wedi edrych ar TAW, a rhoddwyd gostyngiad yn y TAW ar waith. Ychwanegodd ei fod yn gobeithio y gellir gwthio rhagor am ostyngiad mewn TAW ar gyfer busnesau twristiaeth os bydd y dreth dwristiaeth yn cael ei hepgor.

Cadarnhaodd KS fod WLGA, Sefydliad Bevan ac eraill eisoes wedi gwthio am hyn hefyd.

Ychwanegodd SD y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth adfywio ymgyrch i dorri TAW ar gyfer busnesau twristiaeth.

Yna gofynnodd SD i KS ynghylch y Byrddau Twristiaeth Rhanbarthol.

Nid yw KS yn gweld y bydd gostyngiad o bedwar i dri Bwrdd, oherwydd byddai newid Canolbarth Cymru yn gam gwael.

Hoffai KS weld rhagor o adborth o'r ymgysylltiad gan y Byrddau Twristiaeth Rhanbarthol yn cael ei fwydo'n ôl i Lywodraeth Cymru

Gofynnodd VH am y Rheolwyr Cyrchfan a'u rolau presennol, ac ychwanegodd y byddai'n hoffi gweld rhagor o fusnesau yn ymwneud yn ychwanegol â Phartneriaethau Cyrchfan.

Ychwanegodd cyfranwyr eraill fod grwpiau De Orllewin Cymru yn gweithio'n dda, fodd bynnag, mae pryder yn cael ei fynegi yn ardal Sir Benfro nad yw Cyngor Sir Benfro'n buddsoddi'n ddigonol ym maes twristiaeth.

Gofynnwyd a fyddai mwy o arian ar gael gan awdurdodau lleol ar gyfer Partneriaethau Cyrchfan, gan y gallai hyn roi rhagor o hygrededd i'r Partneriaethau.

Ychwanegodd KS fod yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn ceisio rhoi mwy o orchmynion buddsoddi i Awdurdodau Lleol.

Gofynnodd SD a allai problemau o ran y ffin fodoli o ran y dull gweithredu rhanbarthol?

Ymatebodd CA fod ardaloedd Awdurdodau Lleol yn gweithio'n dda, ac y gall fod rhywfaint o rannu dyletswyddau o ran marchnata.

Ychwanegodd BH&HPA y gellid niweidio'r amgylchedd naturiol pe bai gwersylla mynediad agored yn cael ei gyflwyno.

Gofynnodd KS i aelodau'r Grŵp a oeddent yn teimlo bod TripAdviser a safleoedd tebyg yn dda neu'n ddrwg.

Ychwanegodd y Grŵp fod peth pryder y gellir rhoi gradd pum seren i gynnyrch dwy seren.

Ychwanegodd fod lle i waith ymchwil posibl gan Lywodraeth Cymru yn hyn o beth.

Ychwanegwyd bod system graddio Croeso Cymru yn gweithio'n dda a'i bod yn effeithiol.

Gofynnodd KS a oedd angen diweddaru system Croeso Cymru ar gyfer yr oes ar-lein?

Ychwanegodd Cymdeithas Gweithredwyr Hunan Ddarpar Cymru ei bod yn aml yn anodd darganfod gan bobl beth yw'r rheswm pennaf dros eu hymweliad.

Awgrymodd y Grŵp y gellid gwneud rhywfaint o waith ymchwil i hyn, gan nad yw am weld Cymru o dan anfantais o gwbl o'i gymharu â gweddill y DU.

Rhoddodd AGW enghraifft, sef yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol sy'n cyfrif canlyniadau Cymru drwy gymryd canran o ffigur cyffredinol y DU, a nodwyd bod angen gwybodaeth gywirach ar gyfer Cymru.

**CAM I'W GYMRYD: Cynigiodd SD fod y Grŵp Trawsbleidiol yn ysgrifennu at y Gweinidog i holi ynghylch ymchwil a chyllid.**

Ychwanegodd KS fod yr Adran yn adolygu'r maes ymchwil ar hyn o bryd.

Ychwanegwyd bod brandio, logos a gwybodaeth yn ymwneud â Croeso Cymru a'r hyn y gellir ei ddefnyddio ar-lein ar gael i'w lawrlwytho gan y diwydiant.

5. Diweddariad o gyfrifon Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar Gyfraddau Busnes ar gyfer busnesau twristiaeth a lletygarwch **a**
6. Chyfle i ofyn cwestiwn i Bennaeth y Swyddfa Brisio yng Nghymru, Arbenigwr Hamdden a Hunanarlwyo y Swyddfa Brisio, a Phennaeth Polisi a Strategaeth y Swyddfa Brisio.

Rhoddodd KH y wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp Trawsbleidiol, a chadarnhaodd fod ailbrisiad wedi digwydd mewn tua 1.8 miliwn o leoliadau yng Nghymru a Lloegr.

Roedd y Swyddfa Brisio yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynnal y rhestr, yn ogystal â rhestrau o fusnesau blaenorol.

Maent ar y trywydd iawn i gyflawni'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi ar eu cyfer.

Gofynnodd SD am rywfaint o wybodaeth fel y gallai'r grŵp ddeall y dosbarthiadau prisio, y meini prawf y mae'r Swyddfa Brisio yn eu hystyried, a gwybodaeth arall i'w helpu i ddeall y sefyllfa.

Dywedodd KH eu bod yn dechrau drwy ystyried beth fyddai tenant arferol yn barod i'w dalu i landlord. I wneud hyn, maent yn ystyried amodau'r farchnad ac yn dadansoddi tystiolaeth y farchnad a'r hinsawdd economaidd.

Gofynnodd SD a yw hyn yn cynnwys derbynebau masnachu.

Cadarnhaodd JS (o'r Swyddfa Brisio) eu bod yn ystyried derbynebau.

Os nad yw'r rhain ar gael, maent yn defnyddio gwybodaeth arall, fel gwerth tir.

Gofynnodd SD, os na ystyrir derbynebau masnachu ar gyfer siopau, pam eu bod yn cael eu hystyried ar gyfer carafanau a chartrefi parciau, er enghraifft.

Cadarnhaodd JS y byddant yn edrych ar rent, os yn bosibl, ac yn ystyried derbynebau os oes angen, i ddod o hyd i ffigur o ran incwm, llai gwariant.

Mae bythynnod gwyliau yn defnyddio derbynebau a gwariant, gan mai ychydig iawn ohonynt sydd â rhenti sydd ar gael i'w hystyried.

Cadarnhaodd JS, eu bod hwy yn y Swyddfa Brisio, yn hapus i edrych ar renti os ydynt ar gael.

Ychwanegodd BHA fod gwestyau yn aml yn parhau wrth i fusnesau eraill adael ac, o ganlyniad, mae gwestyau wedyn yn elwa o waddol y busnesau eraill.

Mae BHA hefyd yn teimlo bod ardrethi yn ffordd o drethu buddsoddiadau, gan fod Llywodraeth Cymru am weld cynnig gwell, ond yna maent yn cynyddu cyfraddau ardrethi pan welant fod eiddo yn fwy o werth.

Ychwanegodd JS fod y Swyddfa Brisio yn gweithio gyda llawer o gyrff a grwpiau masnach a'u bod yn hapus i rywun ymgysylltu â hwy cyn y prisio, fel bod modd cytuno ar system a fformat gyda BHA.

Ychwanegodd SD fod rhai busnesau yn teimlo bod codiadau mawr iawn wedi digwydd o gymharu â sectorau eraill yng Nghymru.

Ymatebodd KH fod y Swyddfa Brisio yn defnyddio enghreifftiau sydd ganddynt eisoes i lywio eu gwaith wrth wneud penderfyniadau, ac mae hyn yn arbennig o wir gydag atyniadau gwledig.

Ychwanegodd KH fod y Swyddfa Brisio yn barod i edrych ar enghreifftiau o ran rhagor o wybodaeth cyn ail-brisio.

Gofynnodd RG a oedd trywydd penodol i'w ddilyn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol.

Ymatebodd KH gan ddweud bod yna wybodaeth gyswllt ar gyfer y DU a Chymru'n benodol ar y wefan, a rhif ffôn ar gyfer Cymru hefyd ar-lein.

Gofynnodd MI faint o dafarndai a busnesau bach sydd wedi bod yn llwyddiannus hyd yma i gael newid pan mae nhw wedi herio?

Ymatebodd JS eu bod yn cael y swm uchaf o ffurflenni'n cael eu dychwelyd gan berchnogion tafarndai a'u bod yn fodlon ailystyried prisiad os na chafodd y Swyddfa Brisio'r wybodaeth a oedd yn ofynnol.

Gofynnodd SD pa mor aml y gwneir cytundebau rhwng y Swyddfa Brisio ag unrhyw sector.

Ychwanegodd JS fod y Swyddfa Brisio yn cwrdd bob chwe mis gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant.

Gofynnodd BH&HPA am geisiadau / heriau "dim ennill, dim ffi".

Ychwanegodd JS eu bod yn ceisio torri apeliadau nad oes mo'u hangen.

Nid yw apêl Check Challenge Appeal yn weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'r Swyddfa Brisio yn edrych ar ddyfodol apeliadau Ardrethi Busnes fel rhan o'u hymgynghoriad presennol.

Ailadroddodd bod y Swyddfa Brisio yn barod i ymgysylltu ag unrhyw un, ac unrhyw fusnes, ynghylch prisiadau a materion eraill cyn i'r person hwnnw ddechrau ar unrhyw achos ffurfiol.

Ychwanegodd KH fod gan y perchennog hawl gyfreithiol i apelio.

Gofynnodd AB sut mae y mae'r Swyddfa Brisio yn categoreiddio busnesau "hamdden".

Ychwanegodd JS fod hwn yn sector mawr, a'i fod yn cynnwys pethau fel cyrsiau rasio a gwestyau.

Gofynnodd AB a oes modd rhannu categorïau?

**CAM I'W GYMRYD: Ysgrifennu at Swyddfa Brisio Cymru i gael rhestr o gategorïau ac is-gategorïau.**

Gweithredodd AB hefyd ynghylch cyfrifiadau, gan fod gan rai busnesau gostau cynnal eithriadol o uchel.

Ymatebodd JS, gan ddweud fod y Swyddfa Brisio yn edrych ar dderbynebau, felly gallant ystyried costau rhedeg busnesau yn ogystal â'u cynnal a'u chadw.

Ychwanegodd AB y byddai'n hoffi helpu i gael cymaint o wybodaeth â phosib ar gyfer y Swyddfa Brisio.

Ymatebodd JS y byddai'r Swyddfa Brisio yn hoffi ystyried cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl wrth wneud eu penderfyniadau.

Gofynnodd AGW ynghylch a yw'r broses yn oddrychol, a hefyd cwestiynodd hyd yr amser y mae'n ei gymryd i ymdrin ag apeliadau.

Ymatebodd KH, gan ddweud eu bod yn edrych ar amrywiaeth o enghreifftiau wrth wneud eu penderfyniadau.

Ychwanegodd yr aelodau, fod busnesau mewn rhai achosion yn cyflenwi gwybodaeth "mewn ofn" o'r hyn y bydd y wybodaeth yn arwain ato.

Ategodd AB fod angen, mewn llawer o achosion, i fusnesau fuddsoddi swm mawr dim ond i gynnal eu sefyllfa ac i "aros yn eu safle presennol”.

Ychwanegodd cynrychiolwyr Cymdeithas Gweithredwyr Hunan Ddarpar Cymru fod cynnydd yn dal i ddigwydd yn ystod y dirwasgiad, a hefyd bod cynnydd o ran nifer y cystadleuwyr yn y farchnad.

Ychwanegodd y Gymdeithas ymhellach fod llawer o'u haelodau yn cael cyflog isel o’r busnes, a all roi argraff o incwm gwell ar gyfer y busnes nag sy'n wir mewn gwirionedd.

Ymatebodd JS gan ddweud y byddai’r Swyddfa Brisio yn hoffi trafod ymhellach gyda’r Gymdeithas Gweithredwyr Hunan-Ddarpar Cymru, a siarad am brisiadau.

Mae gan y Swyddfa Brisio berthynas dda â’r Gymdeithas sy’n cyfateb i’r Gymdeithas Gweithredwyr Hunan-ddarpar Cymru yn Lloegr, ac maent wedi ceisio cael trafodaethau tebyg gyda’r Gymdeithas yng Nghymru (WASCO) yn y gorffennol.

7. Unrhyw fater arall

Nid oedd dim busnes arall i’w drafod.

Clöwyd y cyfarfod gan SD.